

**CYNGOR CYMUNED
LLANFIHANGEL-AR-ARTH
COMMUNITY COUNCIL**

**CYLCH GORCHWYL:
IS-BWYLLGOR CYLLID**

Mabwysiadwyd/
Adopted:
21.10.2024

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH

CYLCH GORCHWYL

Is-Bwyllgor Cyllid

Pendoir y Pwyllgor (6 aelod fel arfer) yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned bob blwyddyn ym Mis Mai.

Cworum – 3 aelod o'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, ym Mis Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref, ar ddyddiad cyn cyfarfod llawn y Cyngor yn ystod y misoedd hynny. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol ar sail angen.

Cylch Gorchwyl

1. I fonitro a diweddarau'r Rheoliadau Ariannol a sicrhau eu bod yn cael eu dilyn gan y Cyngor.
 2. I fonitro gweinyddiaeth ariannol y Cyngor.
 3. I baratoi cyllideb fanwl y Cyngor ac i argymhell i'r Cyngor Llawn y gyllideb flynyddol a'r praesept flynyddol i'w chodi.
 4. I sicrhau bod y Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol yn paratoi cyfrifon y Cyngor ac yn trefnu archwiliadau mewnol ac allanol.
 5. I adolygu'r arian cyffredinol sydd wrth gefn ynghyd ag unrhyw weddill sydd wedi ei glustnodi ac i argymhell unrhyw newidiadau i'r Cyngor Llawn.
 6. Bydd Cadeirydd y Cyngor Cymuned ymhob blwyddyn yn aelod o'r Is-Bwyllgor.
 7. Mae'r Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor Cymuned, ynghyd â chadw unrhyw ddogfennaeth a chofnodion sydd eu hangen, er mwyn sicrhau bod dyletswyddau'r Pwyllgor yn cael eu cyflawni'n effeithiol yn unol â'r ddogfen "Governance and Accountability for Local Councils in Wales."
 8. Bydd y Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol yn cofnodi'r trafodaethau a'r penderfyniadau yn ogystal â chynnal cofrestr presenoldeb aelodau.
 9. Dosberthir Cofnodion yr Is-Bwyllgor Cyllid yn brydlon i'w holl aelodau a chânt eu hystyried a'u derbyn yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor Cymuned.
 10. Cyfyngir yr eitemau i'w trafod yn y cyfarfod i'r rhai sydd wedi eu rhestru ar yr Agenda yn unig. Anfonir yr Agenda at holl aelodau'r Is-Bwyllgor ymlaen llaw, gan roi o leiaf tri niwrnod o rybudd.
-